Mrs C Evans

Swyddog Dynodedig

Diogelu ac Amddiffyn Plant

Mrs S Rafferty

Dirprwy Swyddog

Dynodedig

Diogelu ac Amddiffyn Plant

Cyfeiriad: Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmnedd

Stryd Newydd, Glynnedd. SA11 5AG

Rhif ffôn: (01639) 720530

Gwefan: ygg-cwm-nedd.j2bloggy.com

e-bost: yggcwmnedd@npt.school

Twitter: @yggcwmnedd

Rhifau ffôn defnyddiol

Sam Jones: (01639) 763363 – Swyddog Dynodedig Diogelu Plant yr AALl

John Burge: (01639) 763598 – Cefnogaeth Disgyblion a Rieni

YSGOL GYNRADD GYMRAEG CWMNEDD

GWYBODAETH DDIOGELU I RIENI AC YMWELWYR

Beth mae diogelu yn golygu?

- Diogelu plant rhag camdriniaeth.
- Cadw plant yn ddiogel rhag niwed megis salwch, camdriniaeth ac anafiadau.
- Atal amharu ar iechyd a datblygiad plentyn.
- Sicrhau fod plant yn tyfu i fyny mewn amgylchedd diogel ac effeithiol.

Creu cyfleoedd am fywyd optimaidd er mwyn bod yn lwyddianus wrth ddatblygu i fod yn oedolyn.

Beth sy'n digwydd os oes gennym bryderon am blentyn?

Fe fydd pryderon lefel isel am blentyn yn cael ei nodi ar rhaglen 'My Concern'. Fydd y rhain yn ein helpu i adeiladu cronoleg o'r pryderon a chynnig cyngor neu gefnogaeth briodol ble bo'r angen, gan gynnwys cefnogaeth wrth asiantau allanol.

Fe fydd y pryderon mwy difrifol ynghylch camdriniaeth neu esgeulustod yn cael ei cyfeirio ar unwaith at **Mrs Christine Evans** y Swyddog Diogelu Plant, neu **Mrs Sali Rafferty** y Dirprwy Swyddog Diogelu Plant. Nhw fydd yn penderfynu ar y cam nesaf e.e. cyngor wrth Swyddog Diogelu'r AALl, cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu gysylltu â'r heddlu.

Sut mae YGG Cwmnedd yn cadw fy mhlentyn yn ddiogel?

Cyfrifoldeb yr ysgol ydy sicrhau fod eich plentyn yn ddiogel ac mae hyn yn cael ei gyflawni yn y ffyrdd canlynol:

Mae gatiau allanol a drysau yr ysgol yn cael eu cadw dan glo bob amser ac mae'n rhaid i ymwelwyr fynd i'r brif swyddfa.

Atgoffir plant yn rheolaidd dydyn nhw ddim i agor y drysau i ymwelwyr, dim hyd yn oed eu rhieni.

Rydym yn sicrhau fod ymwelwyr yn arwyddo mewn a mas fel ein bod ni'n gwybod pwy sydd ar safle'r ysgol.

Mae pob ymwelydd yn gwisgo 'laniard' i ddangos eu bod nhw wedi cael caniatad i fod ar safle'r ysgol.

Cynhelir ymarfer tân yn dymhorol i sicrhau fod staff a phlant yn deall y drefn.

Cynhelir gwyriad Iechyd a Diogelwch gan staff a llywodraethwyr perthnasol.

Cynhelir asesiadau risg cyn unrhyw ymweliad neu weithgaredd tu allan i'r ysgol, yn ogystal â rhai gweithgareddau yn yr ysgol.

Mae pob aelod o staff wedi cael gwyriad GDG (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) cyn ioddynt ymuno a'r ysgol.

Mae hyfforddiant Cymorth Cyntaf y staff yn cael ei diweddaru'n rheolaidd.

Mae gan yr ysgol Swyddog Dynodedig Diogelu Plant (Mrs Christine Evans) a Dirprwy Swyddog Dynodedig Diogelu Plant (Mrs Sali Rafferty.